



Unedau Dofednod: caniatâd cynllunio ac asesu amgylcheddol

Canllawiau ar gyfer ymgeiswyr, awdurdodau cynllunio lleol a staff Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyfeirnod: NC021

Perchennog y ddogfen: Bwrdd DPAS

Beth yw cynnwys y ddogfen?

Nod y canllawiau hyn yw cynorthwyo'r holl bartïon sy'n ymwneud â'r broses o gyflwyno, asesu a gwneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau ar gyfer unedau dofednod.

Ar gyfer pwy y mae'r ddogfen?

- Y rhai sy'n gwneud cais am ganiatâd ar gyfer unedau dofednod
- Awdurdodau cynllunio lleol
- Staff Cyfoeth Naturiol Cymru

Cysylltwch os oes gennych ymholiadau neu adborth

cynllunio@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

planning@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Hanes y fersiwn

Fersiwn y ddogfen	Dyddiad cyhoeddi	Crynodeb o'r newidiadau
1.0	Chwefror 2017	Cyhoeddwyd y ddogfen beilot
1.1	Rhagfyr 2017	Cyhoeddwyd y nodyn canllaw llawn

Dyddiad adolygu: Tachwedd 2018

I roi gwybod inni am faterion neu broblemau gyda'r canllaw, cysylltwch â guidance.development@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Cefndir.....	3
Sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn	3
Rhan 1: Rhestr wirio	3
Rhan 2: Gwybodaeth ar gyfer ymgeiswyr	8
1. Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol).....	8
2. Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru)	8
3. Cydymffurfio â'r rheoliadau amgylcheddol perthnasol	9
4. Cynllun wrth gefn ar gyfer storio tail a slyri	10
5. Rheoli buarthau	10
6. Cynllun rheoli tail	11
7. Cynllunio maetholion	11
8. Atal llygredd – cynllun.....	12
9. Atal llygredd – adeiladu	12
10. Cynllunio rheoli damweiniau	13

Cyflwyniad

Nod y canllawiau hyn yw cynorthwyo'r holl bartïon sy'n ymwneud â'r broses o gyflwyno, asesu a gwneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau ar gyfer unedau dofednod.

Pwynt allweddol

Bydd pob achos yn cael ei asesu ar sail ei rinweddau ei hun ac ni fydd dilyn y canllawiau hyn yn gwarantu caniatâd cynllunio.

Cefndir

Fel ymgynghorai statudol yn y broses gynllunio, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi cyngor ar yr effeithiau posibl ar adnoddau naturiol ac amgylchedd Cymru. Er mwyn rhoi cyngor effeithiol ac amserol, mae angen digon o wybodaeth arnom am gynnig a'r ffordd mae'n ymdrin â materion amgylcheddol.

Mae unedau dofednod yn peri risgiau penodol i'r amgylchedd ac i gymunedau y mae angen eu hystyried a'u rheoli'n ofalus. Fel arfer, mae dyluniad a rheolaeth yn gallu lleihau'r risgiau o lygredd, niwed i gynefinoedd a rhywogaethau, a niwsans i eraill. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn deall eu safleoedd, ac yn cynnwys gwybodaeth berthnasol mewn ceisiadau cynllunio er mwyn egluro sut mae cynigion yn:

osgoi neu leihau effeithiau
cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol

Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu'r wybodaeth sydd ei hangen ar Cyfoeth Naturiol Cymru a'r awdurdod cynllunio lleol i lywio eu hasesiadau.

Sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn

Mae'r canllawiau hyn wedi'u rhannu'n ddwy ran:

Mae **Rhan 1** yn rhestr wirio sy'n nodi'r wybodaeth mae angen ei chyflwyno gyda chais cynllunio ac yn egluro pam mae angen y wybodaeth hon.

Mae **Rhan 2** yn darparu rhagor o wybodaeth ar gyfer ymgeiswyr am gynlluniau rheoli, dyluniad, a chaniatadau a thrwyddedau eraill.

Rhan 1: Rhestr wirio

Dyma restr o'r wybodaeth sydd ei hangen ar Cyfoeth Naturiol Cymru i ategu ymgynghoriad ar gais cynllunio, i alluogi ymateb gwybodus ac amserol.

Dylai ymgeiswyr ystyried y cyfyngiadau a'r cyfleoedd wrth iddynt feddwl am ddewis safle, yn benodol:

osgoi lleoliadau sy'n agos i safleoedd dynodedig
cynefinoedd
rhywogaethau a warchodir
cyrsiau dŵr
lleoliadau eraill lle byddai'n anodd rheoli dŵr ffo

Pwnc	Gofynion
1	<p>Nodi derbynyddion sensitif yn yr ardal o amgylch</p> <p>Mae angen i ymgeiswyr nodi ac ystyried derbynyddion sensitif yn yr ardal o amgylch, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Safleoedd a warchodir (gan gynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, safleoedd Ramsar a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig), rhywogaethau a warchodir a choetiroedd hynafol. • Anheddau preswyl cyfagos. Bydd hyn yn effeithio ar y risg o sŵn ac aroglau'n peri niwsans. Mae ffactorau sy'n effeithio ar y risg yn cynnwys pellter, topograffeg, cyfeiriad cyffredinol a chyflymder y gwynt, llystyfiant, awyru'r safle, y math o gynhyrchiant, deunydd gwelyau, y system ymdrin â thail, a systemau rheoli tail. • Mae lleoliadau dŵr a reolir (er enghraifft, cyrsiau dŵr, ffosydd gwlyb a sych, dŵr daear a phyllau) yn hanfodol i arwain mesurau atal llygredd, gan gynnwys clustogfeydd ar gyfer buarthau da byw a lleoliadau suddfannau a nodweddion draenio eraill yn seiliedig ar bellter a chysylltedd.
2	<p>Asesiad o effaith amonia atmosfferig – SCAIL</p> <p>Bydd yn rhaid i geisiadau ddangos y risg o grynodiadau o amonia atmosfferig a dyddodiadau nitrogen ar safleoedd cyfagos. Gellir gwneud hyn trwy ddefnyddio'r offeryn ar-lein SCAIL (Cyfrifiad Syml o Derfynau Effaith Amonia), sydd ar gael yn rhad ac am ddim yn http://www.scail.ceh.ac.uk/</p> <p>Rhaid i geisiadau gynnwys adroddiad o SCAIL neu becyn modelu ansawdd aer arall sy'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y data mewnbwn • lefelau cefndirol • cyfraniadau proses (PC) • y crynodiadau amgylcheddol newydd o amonia a nitrogen a ragfynegir (PEC)
3	<p>Modelu amonia manwl</p> <p>Mewn achosion lle mae SCAIL yn nodi yr eir dros drothwyon dinodedd, mae'n bosibl y bydd angen rhagor o waith modelu manwl i ategu'r cais.</p> <p>Mae cyflwyno adroddiadau sydd â'r un set safonol o wybodaeth yn ei gwneud yn haws o lawer nodi gwybodaeth berthnasol ynddynt, a bod yn hyderus ynghylch cyd-destun llawn yr asesiad y mae'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru ei gynnal.</p> <p>Mae'n gyflymach o lawer i Cyfoeth Naturiol Cymru asesu'r effeithiau posibl pan fydd yn hawdd cysylltu canlyniadau'r model â derbynyddion ar lawr gwlad. Dylai tablau roi enwau'r safleoedd dynodedig ac enwau lleoedd eraill, ynghyd â chroesgyfeiriadau at fap.</p> <p>Dylai adroddiadau gynnwys gwybodaeth PC a PEC ar gyfer pob achos, gan gynnwys PEC hyd yn oed lle nad eir dros drothwyon Cyfoeth Naturiol Cymru.</p>

	Pwnc	Gofynion
4	Cynllun draenio safle	<p>Mae angen i geisiadau gynnwys cynllun o'r safle sy'n nodi'r holl nodweddion newydd a'r rhai sy'n bodoli eisoes a fydd yn rheoli llygredd o'r datblygiad, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • draeniau glân a budr (gyda chyfeiriad y llif) • cyfyngiant elifion (gan gynnwys capasiti) • darpariaeth ar gyfer dadheintio a chasglu diheintydd os oes angen rheoli achos o glefyd • unrhyw suddfan wedi'i adeiladu • draeniau Ffrengig • draeniau cynaliadwy newydd neu rai sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys pantiau, gwelyau cyrs neu byllau <p>Dylid hefyd nodi unrhyw fesurau rheoli perthnasol.</p>
5	Cynllun o ardal y buarth (ar gyfer unedau dofednod maes)	<p>Mae angen i geisiadau gynnwys manylion ardal y buarth er mwyn asesu'r risg o ddŵr ffo'n llygru cyrsiau dŵr cyfagos.</p> <p>Dylai mapiau sy'n dangos ardal y buarth nodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ffiniau ardal y buarth (gan gynnwys cyfanswm yr arwynebedd mewn hectarau) • Cyfeiriad y goleddf • Mathau o bridd (er enghraifft, clai trwm) • Yr holl dderbynyddion sensitif (ffynhonnau, tarddellau a thyllau turio o fewn 50 medr i ffin y safle, cyrsiau dŵr, gwrychoedd, ac unrhyw safleoedd neu rywogaethau a warchodir y gwyddys amdanynt) o fewn 50 medr i'r ffin • Lleoliad mesurau lliniaru cyfredol ac arfaethedig i reoli dŵr ffo • Mesurau rheoli ar gyfer pridd a gorchudd cynyddau i atal tir rhag mynd yn dyfrlawn a dŵr ffo, gan gyfeirio'n benodol at ardaloedd o gwmpas pwyntiau mynediad da byw – tyllau mynediad neu ferandas
6	Rheoli tail	<p>Mae angen i geisiadau gynnwys cynllun rheoli tail. Rhaid i'r cynllun gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfrifiad o'r holl nitrogen a ffosffad a gynhyrchir gan yr uned dofednod arfaethedig a phob ffynhonnell arall o faethion wedi'u mewnforio neu eu cynhyrchu ar y daliad • Manylion arwynebedd y tir sydd ar gael ar gyfer taenu dŵr budr neu wasarn • Cyfrifiad o'r llwyth maetholion (nitrogen a ffosffad) ar gyfer pob hectar o dir sydd ar gael ar gyfer taenu • Dangos sut bydd y daliad yn defnyddio maetholion er budd amaethyddol • Map risg o'r ardal daenu arfaethedig yn nodi derbynyddion sensitif, er enghraifft: <ul style="list-style-type: none"> – tyllau turio – ffynhonnau – llynnoedd – afonydd

Pwnc	Gofynion	
		<ul style="list-style-type: none"> - cyrff dŵr neu gynefinoedd eraill mae'n bosibl bod angen asesiad arnynt o dan Reoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) - safleoedd dynodedig cyfagos, er enghraifft: Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
7	Cynllun wrth gefn	<p>Mae angen i geisiadau ddangos bod cynllun wrth gefn ar waith ar gyfer storio unrhyw dail, slyri a dŵr budr a gynhyrchir ar adegau nad yw'n bosibl taenu – er enghraifft, o ganlyniad i amodau gwlyb, dyfrlawn neu rewlyd – yn unol â Chod Arferion Amaethyddol Da (ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru). Mae hyn i sicrhau bod tail a slyri'n cael eu taenu ar adegau priodol er mwyn atal llygredd a manteisio i'r eithaf ar y maetholion sy'n cael eu defnyddio ar gyfer tyfu cnydau.</p> <p>Rhaid rhoi manylion cynllun wrth gefn ar gyfer storio dŵr golchi yn ystod ac ar ôl achos o glefyd, gan fod hwn yn wastraff peryglus, ac yn dibynnu ar ddifrifoldeb a'r math o glefyd, mae'n bosibl y bydd angen ei storio yn hirach nag arfer a'i ddioli o dail a slyri arall.</p> <p>Dylai ymgeiswyr ystyried defnyddio'r hierarchaeth a ddisgrifir yn yr adran wybodaeth isod.</p>
9	Atal llygredd – adeiladu a rheoli	<p>Mae angen i geisiadau gynnwys mesurau atal llygredd priodol, i sicrhau nad yw'r amgylcheddau dŵr (dŵr wyneb a dŵr daear) yn cael eu llygru pan fydd y safle'n cael ei adeiladu neu ei weithredu.</p>
10	Madfallod dŵr cribog	<p>Bydd angen asesiad ar gyfer madfallod dŵr cribog:</p> <ul style="list-style-type: none"> • os yw'r safle arfaethedig mewn ardaloedd lle mae madfallod dŵr cribog yn trigo • os oes unrhyw ran o'r datblygiad, gan gynnwys ardal buarthau, o fewn 250 metr i bwl <p>Os oes pyllau'n bresennol, caiff yr ymgeisydd wneud ymholiad cyn ymgeisio i Cyfoeth Naturiol Cymru i sefydlu a yw'r safle o fewn ardal lle mae madfallod dŵr cribog yn trigo. Os felly, ac nad yw'n bosibl dangos bod y pyllau'n anaddas (er enghraifft, wedi'u stocio â physgod), bydd angen i asesiad ystyried mesurau i osgoi neu atal effeithiau adeiladu a gweithredu, gan gynnwys ieir yn ysglyfaethu ar fadfallod ar ardaloedd y buarth.</p> <p>Bydd y Cynllun Atal Llygredd yn dangos sut mae pyllau'n cael eu hamddiffyn rhag llygredd.</p>
11	Ystlumod	<p>Mae angen i ymgeiswyr ddangos yn glir ar gynllun neu fap leoliad unrhyw goed, gwrychoedd neu adeiladau mae'n bosibl yr effeithir arnynt – naill ai trwy eu symud neu eu haddasu, neu'n anuniongyrchol.</p>

Pwnc	Gofynion
	<p>Oni bai bod coed, gwrychoedd neu adeiladau'n cael eu tynnu, mae'n debygol mai'r unig ofyniad fydd amod sy'n atal golau o'r datblygiad rhag goleuo coedwigoedd, coed, gwrychoedd a nodweddion ffin eraill, neu unrhyw fynedfeydd i glwydydd ystumod mewn adeiladau cyfagos.</p>
12	<p>Pathewod</p> <p>Mae angen i geisiadau nodi'n glir os oes unrhyw goed, gwrychoedd neu brysgwydd yn bresennol a nodi a ydynt yn cael eu symud neu eu newid.</p> <p>Oni bai bod coed, gwrychoedd neu brysgwydd yn cael eu clirio, mae'n debygol mai'r unig ofyniadau pe bai pathewod yn bresennol fyddai:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gosod ffensys rhwng ardaloedd y buarth a gwrychoedd • sicrhau bod golau o'r datblygiad yn cael ei atal rhag goleuo coedwigoedd, coed, gwrychoedd a phrysgwydd cyfagos
13	<p>Tir a safleoedd nad ydynt yn ddynodedig</p> <p>Mae angen i geisiadau gynnwys gwybodaeth am safleoedd bywyd gwyllt lleol, coetir hynafol a chynefinoedd lled naturiol eraill, gyda gwybodaeth i helpu'r awdurdod cynllunio lleol i asesu'r effeithiau ar y nodweddion hynny, gan gynnwys effeithiau dyddodiadau amonia a nitrogen.</p> <p>Mae unrhyw brosiectau neu weithrediadau sy'n cynyddu allbwn amaethyddol yn sylweddol mewn ardaloedd heb eu trin a/neu ardaloedd lled naturiol sy'n cynnwys llai na 25–30% o rywogaethau amaethyddol wedi'u gwella (er enghraifft, rhygwellt neu feillion gwyn) yn cael eu hamddiffyn o dan Categori 1 Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2007. O dan Categori 2 y rheoliadau, mae angen caniatâd sgrinio ar brosiectau mawr sy'n ailstrwythuro daliadau tir gwledig, gan gynnwys tir sydd wedi'i wella. Mae'n bosibl y byddai gweithrediadau nodweddiadol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • symud neu ychwanegu ffiniau caeau • plannu gwrych • ailgyfuchlinio (ailffurfio) tir amaethyddol <p>Dilynwch y ddolen hon am ragor o wybodaeth am y math o dir a gweithrediadau a gynhwysir o dan y rheoliadau hyn: http://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/conservationbiodiversity/eiahome/projectsandregs/?skip=1&lang=cy</p> <p>Er bod y lefel o risg a gymhwysir ar gyfer safleoedd nad ydynt yn ddynodedig yn wahanol i safleoedd dynodedig, mae angen yr un safon o dystiolaeth ar yr awdurdod cynllunio lleol er mwyn asesu'r effeithiau ar safleoedd nad ydynt yn ddynodedig ag sydd ei hangen ar Cyfoeth Naturiol Cymru i roi cyngor ar safleoedd dynodedig.</p>

Pwnc	Gofynion
14	<p>Parthau llifogydd</p> <p>Os yw'r seilwaith caled o fewn parth map cyngor datblygu C1 neu C2, rhaid i geisiadau gael eu hategu gan asesiad canlyniadau llifogydd. Bydd angen i'r asesiad canlyniadau llifogydd ddangos y byddai'r datblygiad yn rhydd rhag llifogydd mewn achos o lifogydd un ym mhob 100 mlynedd ac nad yw'n cynyddu'r perygl o lifogydd mewn mannau eraill.</p> <p>Noder ei bod yn bosibl bod cynnig sy'n cael ei effeithio gan y risg o lifogydd yn ei chael yn anodd bodloni'r gofynion atal llygredd, yn enwedig os yw tail yn cael ei gludo oddi ar ardaloedd y buarth gan ddŵr llifogydd.</p>

Rhan 2: Gwybodaeth ar gyfer ymgeiswyr

1. Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol)

Mae'n bosibl y bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn gofyn am asesiad o'r effeithiau amgylcheddol os yw'r datblygiad yn mynd dros drothwyon maint priodol (o dan Atodlen 1 neu 2 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2016) ac yr ystyrir ei bod yn debygol y bydd yn cael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd.

Y trothwy maint yw datblygiadau sydd â lle llawr newydd o 500 medr sgwâr neu fwy ac sy'n agos i dderbynnydd sensitif (fel y diffinnir yn Atodlen 3 y Rheoliadau).

2. Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru)

Bydd yn rhaid i ymgeiswyr ymgynghori â Thîm Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) Llywodraeth Cymru cyn cynnal:

- gwelliannau amaethyddol ar dir heb ei drin neu mewn ardaloedd lled naturiol
- prosiectau sy'n cynnwys ailstrwythuro daliadau tir gwledig ar unrhyw fath o dir amaethyddol

Cysylltwch â Chanolfan Cyswllt Cwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru:

Ffôn: 0300 062 5004

Ffacs: 01286 662193

E-bost: rpwonline@wales.gsi.gov.uk

Oriau agor: Ddydd Llun i ddydd Gwener, 8.30am – 5pm

Gallwch hefyd gysylltu ag Uned Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol yn uniongyrchol yn EIA.Unit@wales.gsi.gov.uk.

Mae rhagor o wybodaeth ar eu gwefan:

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/conservationbiodiversity/eiahome/?lang=cy>

3. Cydymffurfio â'r rheoliadau amgylcheddol perthnasol

Cewch o hyd i wybodaeth am y rheoliadau perthnasol, p'un a oes angen trwydded neu beidio, a sut i wneud cais ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru:

<https://naturalresources.wales/apply-for-a-permit/?lang=cy>

Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol: ffermio dwys

Pe bai'r cynnig yn cynyddu nifer yr adar o fewn y daliad i dros 40,000 o adar, byddai angen Trwydded Amgylcheddol gan Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010.

Nid yw rhoi caniatâd cynllunio'n caniatáu gweithgareddau sydd angen caniatâd neu drwydded o dan ddeddfwriaeth arall. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau y derbyniwyd yr holl awdurdodau perthnasol cyn i weithrediadau gael eu dechrau ar y safle.

Anogir ymgeiswyr i gynnal trafodaethau cyn ymgeisio â Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gwneud cais am drwydded i helpu i sicrhau bod pob agwedd yn cael ei hystyried. Lle bo hynny'n bosibl, dylid gwneud cais am drwydded a chais am ganiatâd cynllunio ar yr un pryd i osgoi oediadau.

Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol: tynnu dŵr

Cynghorir ymgeiswyr sy'n bwriadu cyflenwi unedau newydd o ddŵr daear neu ddŵr wyneb i wirio'r cyfyngiadau ar dynnu dŵr ac i wneud cais am drwydded tynnu dŵr os oes angen.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan:

<https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/water-abstraction-and-impoundment/apply-for-a-water-abstraction-or-impoundment-licence/?lang=cy>

Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol: gollyngiadau

Bydd angen caniatâd ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru neu gofrestrriad ar gyfer eithriad gan y datblygwr ar gyfer unrhyw ollyngiad (e.e. draenio dŵr budr i gwrs dŵr) o'r safle, ac mae'n bosibl y bydd un o'r rhain yn ofynnol hefyd ar gyfer categorïau penodol o ollyngiadau i'r tir. Mae'n rhaid derbyn pob caniatâd neu eithriad angenrheidiol gan Cyfoeth Naturiol Cymru cyn i'r gwaith ddechrau ar y safle.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan:

<https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/water-discharges/discharges-to-surface-water-and-groundwater/?lang=cy>

Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau 2013

Mae Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau yn cyfyngu gosod maetholion mewn rhai ardaloedd. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw dangos ei fod yn gallu cydymffurfio â therfyn y fferm gyfan, terfynau maes, gofynion storio a chyfyngiadau taenu. Mae cynllunio maetholion yn ofyniad safonol ar gyfer ffermydd o fewn parthau perygl nitradau.

Deddf Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010

Rhaid i'r holl ddŵr golchi a thail sy'n dod o unedau dofednod gael eu casglu a'u storio yn unol â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010 a Chod Ymarfer Amaethyddol Da Llywodraeth Cymru.

Dylid trin dŵr o doeon unedau lle y tynnir dŵr ar gyflymder araf fel pe bai wedi cael ei lygru'n ysgafn, a'i gyfeirio i suddfan wedi'i adeiladu, pant, pwll neu wely cyrs.

Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010

Bydd angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd lle mae'n debygol y bydd Safleoedd Natura 2000 (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig / Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig) a safleoedd Ramsar yn cael eu heffeithio.

Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)

Bydd angen asesiad o'r effeithiau ar nodweddion Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

4. Cynllun wrth gefn ar gyfer storio tail a slyri

Dylai'r ymgeisydd ddangos bod ganddo gynllun wrth gefn ar gyfer storio'r holl dail, slyri a dŵr budr a gynhyrchir ar bob adeg o'r flwyddyn. Mae hyn i sicrhau y gellir taenu tail a slyri ar adegau priodol i atal llygredd ac i ddefnyddio maetholion ar gyfer tyfu cnydau.

Mae tail a slyri dofednod yn llawn maetholion sydd â'r potensial i beri llygredd, yn enwedig nitrad a ffosffad. Mae'r rhain yn faetholion gwerthfawr ar gyfer hybu cnydau i dyfu, ond rhaid eu rheoli'n ofalus i osgoi llygredd trwy ddŵr ffo neu drwytholchi. Mae rheolaeth dda o dail a slyri hefyd yn allweddol i fioddiogelwch. Dylai gweithredwyr ddangos eu bod wedi ystyried yr opsiynau ar gyfer rheoli'r tail a'r slyri y maent yn eu cynhyrchu i sicrhau nad yw'n peri llygredd trwy ddŵr ffo neu faetholion yn cronni mewn priddoedd. Er enghraifft:

1. Storfa dail wedi'i hadeiladu i'r pwrpas ac iddi do – wedi'i hadeiladu i safonau Rheoliadau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol, ac yn ddigon mawr i sicrhau bod digon o gapasiti i storio tail nes bod angen maetholion ar gnydau. Mae storio tail o dan do yn lleihau colli maetholion trwy lawiad ac yn helpu i sicrhau bod y tail yn pydru ac yn cael ei ddadelfennu gan facteria.
2. Allforio ar gyfer treulio anaerobig neu adennill ynni (gan sicrhau bod y trwyddedau perthnasol ar waith).
3. Storio mewn pentyrrau dros dro mewn caeau wedi'u lleoli trwy ddilyn Cod Ymarfer Amaethyddol Da.
4. Taenu'n uniongyrchol ar dir gan ddilyn Cod Ymarfer Amaethyddol Da – dylai hyn fod yr opsiwn olaf, a dylai bob amser ystyried ymgorffori tail mewn pridd cyn gynted ag y bo'n ymarferol.
5. Allforio neu werthu – mae'n bwysig bod gweithredwyr yn gyfrifol am sicrhau bod y tail neu slyri y maent yn ei allforio'n cael ei reoli mewn modd priodol gan bobl eraill.

5. Rheoli buarthau

Mae buarthau sy'n cael eu rheoli'n dda ac iddynt orchudd da o lystyfiant a phriddoedd sy'n cael eu rheoli'n dda, a lle mae buarthau yn cael eu cylchdroi'n rheolaidd, yn cyfrannu at gynhyrchiant, llesiant a bioddiogelwch gwell, wrth leihau'r risg o ddŵr ffo llawn maetholion yn peri llygredd.

Pan fydd adar yn defnyddio'r holl ardal, mae maetholion yn cael eu lledaenu'n fwy cytbwys ac mae'n osgoi dyddodion llawn maetholion a sathru tir yn agos i'r sied. Os yw sathru'n digwydd, bydd yn rhaid i weithredwyr adfer yr ardal i sicrhau nad yw gwastraff yn cael ei ddraenio i gwrs dŵr.

Mae dulliau draenio cynaliadwy megis pantiau, gwelyau cyrs, byndiau pridd a phyllau yn gallu gweithredu fel rhwystr rhag dŵr ffo.

6. Cynllun rheoli tail

Diben cynllun rheoli tail yw osgoi llygredd i gyrsiau dŵr a niwed i gynefinoedd lled naturiol trwy roi gormod o dail ar dir.

Os bydd tail yn cael ei ddefnyddio ar eich daliad, mae angen cynllun rheoli tail er mwyn dangos bod gan y fferm ddigon o dir i daenu'r tail a gynhyrchir gan y datblygiad arfaethedig, ochr yn ochr â'r tail arall a gynhyrchir ar y fferm, ar raddfa sy'n gyson â'r terfyn uchaf a argymhellir gan y Cod Ymarfer Amaethyddol Da o 250kg nitrogen/hectar. **Mae hwn yn derfyn uchaf ac nid dyma'r gofyniad maetholion a argymhellir ar gyfer pob math o dir. Mae angen cynllun maetholion i ddangos y budd amaethyddol.**

Rhaid ystyried hefyd y ffosffad a gynhwysir yn y tail a'r meintiau gweddilliol yn y priddoedd i sicrhau nad eir dros yr hyn sydd ei angen ar y cnwd hwnnw. Argymhellir hefyd fod y pridd yn cael ei samplu'n rheolaidd am pH, ffosffad a magnesiwm, ac y gellir addasu cyfraddau gosod tail a gwrtaith yn ôl yr angen i fodloni gofynion y cnwd.

Dylai'r cynllun nodi manau lle na ddylid cynnal taenu tail, gan gynnwys o gwmpas ffosydd a chyrsgiau dŵr, i helpu i leihau'r risg o lygredd. Dylid cynnal clustogfa o 10 medr o gwmpas cyrsiau dŵr ac unrhyw ardaloedd sensitif eraill. Ni ddylai taenu gael ei gynnal o fewn 50 medr i dardellau, ffynhonnau a thyllau turio (Cod Ymarfer Amaethyddol Da).

Dylid cynnal taenu tail yn unol â'r Cod Ymarfer Amaethyddol Da (h.y. nid ar dir sy'n wlyb, yn ddyfrlawn, wedi rhewi, o dan eira neu ar lethr serth).

Ni ddylid lleoli pentyrrau cae dros dro yn yr un lle am fwy na 12 mis, ac ni ddylid dychwelyd i'r un lleoliad am ddwy flynedd. Dylid lleoli pentyrrau cae er mwyn osgoi unrhyw beth yn llifo i gwrs dŵr neu ddyfroedd daear, gan eu lleoli o leiaf 10 medr o unrhyw gyrsiau dŵr (gan gynnwys draeniau tir) a 50 medr o unrhyw ffynnon, tardell neu dwll turio. Os yw'r tir o fewn parth perygl nitradau, dylid cynnal gwaith taenu yn unol â'r canllawiau ar gyfer parthau perygl nitradau a marcio'r pentwr cae ar y map risg.

Mae canllawiau i helpu i gwblhau cynllun rheoli tail ar gael yn y Cod Ymarfer Amaethyddol Da. Mae templedi ar gael ar-lein.

Os yw tail yn cael ei symud o ddaliad yr ymgeisydd, dylid cofnodi manylion y maint a'r gyrchfan – er enghraifft, mewn dyddiadur neu lòg allforio.

7. Cynllunio maetholion

Mae tail amaethyddol a slyri'n cael eu heithrio o reoliadau gwastraff os ydynt yn cael eu defnyddio er budd amaethyddol. I ddangos bod y maetholion yn cael eu defnyddio er budd amaethyddol ac nad yw'n debygol y byddant yn peri llygredd gwasgaredig, mae'n bwysig cynllunio'r defnydd o faetholion yn unol â gofynion crydau. Mae angen i gynllunio maetholion hefyd hystyried holl ffynonellau maetholion, gan gynnwys yr holl dail organig a gynhyrchir gan y fferm a mewnforyn megis gwrteithiau anorganig, gweddillion, deunyddiau gwastraff a llaid carthffosiaeth.

Dylai ceisiadau allu dangos sut y bydd y lefelau uwch o faetholion a gynhyrchir gan y datblygiad yn cael eu defnyddio er budd amaethyddol. Rhaid iddynt ystyried holl

ffynonellau maetholion, gan gynnwys ffynonellau organig ac anorganig, a deunyddiau wedi'u mewnfurio.

Dylai'r cynllun maetholion gynnwys ymrwymiad i samplu pridd yn rheolaidd am pH, ffosffad, potasiwm a magnesiwm, gyda chyfraddau gosod tail a gwrtaith yn cael eu haddasu yn ôl yr angen i fodloni gofynion y cnwd.

Dylai cynlluniau maetholion ddilyn y canllawiau ar yr argymhellion ar gyfer maetholion a amlinellir yn y Llawlyfr Gwrteithiau (RB209), ac yn ddelfrydol dylent gael eu hardystio gan gynghorydd cymwysedig FACTS.

Mae canllawiau enghreifftiol ar lunio cynllun rheol maetholion ar gael yma:

<http://adlib.everysite.co.uk/resources/000/253/485/TriedAndTested2009.pdf>

8. Atal llygredd – cynllun

Dylid gwaredu dŵr wyneb glân, nad yw wedi'i lygru, trwy egwyddorion draenio cynaliadwy. Dylai unrhyw suddfannau gael eu cyfeirio i ffwrdd o ddŵr wyneb cyfredol. Rhaid draenio'r datblygiad trwy systemau ar wahân ar gyfer draenio dŵr budr a dŵr wyneb, gyda'r holl ddŵr glân o doeon a dŵr wyneb yn cael eu cadw ar wahân i ddŵr budr.

Ni ddylid caniatáu i ddŵr ffo, yn enwedig o'r buarth, lifo yn uniongyrchol i ddraeniau dŵr wyneb neu gyrsiau dŵr, gan y gall y dŵr hwn gynnwys maetholion a gwaddodion sy'n peri llygredd.

Rydym hefyd yn hysbysu'r ymgeisydd am yr angen i sicrhau bod unrhyw danc elifion yn cael ei adeiladu yn unol â Rheoliadau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol (Cymru) 2010. Yn ogystal, dylai'r ôl-gerbyd gael eu ei selio a'i orchuddio â chynfas i atal gollwng os yw wedi'i leoli ar yr iard.

Dylai'r gwaith gynnwys mesurau atal llygredd priodol i sicrhau nad yw'r amgylchedd dŵr (dŵr daear a dŵr wyneb) yn cael ei lygru.

9. Atal llygredd – adeiladu

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi darganfod bod yr angen i gadarnhau mesurau atal llygredd gyda'r ymgeisydd wedi arwain at waith ychwanegol ac oedi cyn rhoi caniatâd. Gellid osgoi hyn trwy gynnwys mesurau atal llygredd gyda'r cais.

Rhaid i fesurau atal llygredd priodol fod ar waith, i sicrhau nad yw'r amgylcheddau dŵr (dŵr wyneb a dŵr daear) yn cael eu llygru yn ystod gwaith cloddio, adeiladu neu dirweddu. Wrth weithio'n agos i gyrsiau dŵr, rhaid gwneud gwaith mewn modd na fydd yn peri llygredd i ddyfroedd a reolir. Mae peri gollwng dŵr neu ganiatáu gollwng dŵr yn fwriadol yn drosedd o dan Reoliad 38 Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010.

Rhaid i'r holl waith ar y safle gael ei gynnal yn unol â Chanllawiau i Atal Llygredd 6: 'Gweithio ar safleoedd adeiladu a dymchwel'.

Bydd angen i unrhyw weithiau a gwaith cynnal a chadw mewn dŵr neu'n agos iddo ddilyn Canllawiau i Atal Llygredd 5: 'Gweithiau a gwaith cynnal a chadw mewn dŵr neu'n agos iddo'.

Mae canllawiau ar gyfer atal llygredd ar gael ar-lein yn NetRegs:

<http://www.netregs.org.uk/environmental-topics/pollution-prevention-guidelines-ppgs-and-replacement-series/guidance-for-pollution-prevention-gpps-full-list/>

10. Cynllunio rheoli damweiniau

Cynghorir ymgeiswyr i gynnwys cynllun rheoli damweiniau sy'n dangos lleoliad a meintiau sylweddau sydd â'r potensial i beri llygredd megis olew, tanwydd, storfeydd cemegion, biniau bwydo, tanciau dŵr budr a meddyginiaethau. Dylai'r cynllun ddisgrifio sut y byddai llygredd yn cael ei atal neu ei leihau pe bai damwain neu argyfwng megis tân ar y safle. Mae'n bosibl bod hyn yn cynnwys falfiau ailgyfeirio a darparu deunyddiau amsugno neu offer blocio draeniau.